Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg

# Learn Welsh News

## Hydref
## Autumn
## 2025

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

# Croeso

Creu cyfleoedd i bobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yw prif nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a dan ni'n gyffrous iawn i groesawu miloedd o ddysgwyr atom ar ddechrau tymor newydd – yn y gymuned, ar-lein, ac mewn gweithleoedd.

Mae gwaith y Ganolfan wedi esblygu, ac mae cynlluniau newydd, sydd wedi'u gwreiddio yn ein harbenigedd dysgu a chaffael iaith, yn denu mwy a mwy o bobl i ddysgu a defnyddio'r iaith.

Mae Estyn wedi canmol ein cynlluniau ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn y gweithle, am yr effaith gadarnhaol maen nhw'n eu cael ar gryfhau sgiliau dwyieithog, ac am ymestyn a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau sy'n greiddiol i'r iaith.

Y tymor yma, mae'r cynlluniau dysgu dwys ar gyfer athrawon (y Cwrs Sabothol gynt) wedi trosglwyddo i'r Ganolfan, yn rhan o'n rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu addysg.

Mae'r gwaith â phobl ifanc a'n cynulleidfaoedd eraill hefyd yn parhau i dyfu, a'r ddarpariaeth 'Croeso'n ôl' – sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg di-hyder i ddefnyddio'r iaith – wedi ehangu.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lawn o weithgaredd, ac at gydweithio adeiladol â'n holl randdeiliaid a phartneriaid.

**Dona Lewis,**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

# Welcome

The main aim of the National Centre for Learning Welsh is to create opportunities for people to learn and use the Welsh language, and we're delighted to welcome thousands of learners at the beginning of a new term – in communities, online, and in the workplace.

The Centre's work has evolved, and new programmes, rooted in our language learning and acquisition expertise, are attracting more and more people to learn and use the language.

Estyn has praised the Centre's learning schemes for the workplace for their positive impact on strengthening bilingual skills and for helping to normalise and extend the use of Welsh in key sectors.

This term, the intensive learning programme for teachers (formerly known as the Sabbatical Course) has officially transferred to the Centre, as part of our comprehensive training provision for the education workforce.

Our work with young people and other audiences continues to grow, and the 'Croeso'n ôl' (Welcome back) provision – which supports Welsh speakers who lack confidence to use the language – has expanded.

We look forward to a busy year, and to working in partnership with all our stakeholders and partners.

**Dona Lewis,**
**Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh**



# Estyn yn canmol cynlluniau'r Ganolfan

Mae Estyn wedi canmol cynlluniau Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol am yr effaith gadarnhaol maen nhw'n eu cael ar gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Mewn adroddiad diweddar, mae Estyn yn cydnabod gweledigaeth arloesol arweinwyr y Ganolfan wrth ddatblygu'r cynlluniau, ac mae'n tynnu sylw at y ffordd effeithiol y maent yn cydweithio â chyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid i ehangu'r cynlluniau hynny.

Mae 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi manteisio ar y cynlluniau, a gyflwynwyd yn 2018. Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gael a rhaglenni ar gyfer sectorau a chyflogwyr penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, Awdurdodau Lleol, a Chwaraeon.

Yn ôl Estyn, mae'r galw cynyddol am ehangu'r ddarpariaeth yn dangos bod Cymraeg Gwaith yn un o gonglfeini mentrau cynllunio ieithyddol yn y gweithle, ac yn ganolog i'r ymdrechion i ymestyn a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau sy'n greiddiol i ddyfodol yr iaith.

Meddai Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: "Mae'n wych i weld adroddiad cadarnhaol arall gan Estyn ar waith y Ganolfan. Mae'n dangos bod y Ganolfan yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gwella sgiliau gweithwyr i ddarparu gwasanaethau Cymraeg."

Darllenwch fwy: Estyn yn dweud bod cynllun y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn un o gonglfeini cynllunio ieithyddol yn y gweithle | Dysgu Cymraeg

# Estyn praises Centre's schemes

Estyn has praised the National Centre's Work Welsh schemes for their positive impact on strengthening bilingual skills in workplaces across Wales.

In a recent report, Estyn commends the Centre's innovative leadership in developing the schemes and highlights its effective collaboration with employers, providers and stakeholders to expand the schemes' reach.

Since Work Welsh was launched in 2018, over 2,000 employers and 30,000 workers have taken part. A full range of training is available, as well as schemes for specific sectors and employers, including Health and Social Care, Local Authorities, and Sport.

According to Estyn, the growing demand for extending the provision shows Work Welsh is a cornerstone of workplace language planning initiatives and is central to the efforts to expand and normalise the use of Welsh in key sectors vital to the language's future.

Mark Drakeford, Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language, said: "It's great to see another positive report from Estyn on the work of the National Centre, this time focusing on the Work Welsh schemes. It shows that the Centre's work is increasing opportunities for people to use Welsh in the workplace and improving workers' skills to deliver services in Welsh."

Read more: Estyn highlights National Centre for Learning Welsh scheme as a cornerstone of language planning in the workplace | Learn Welsh



# Arbenigedd yn sbardun i dwf yn y niferoedd sy'n dysgu'r Gymraeg

Mae cynllunio ieithyddol manwl ac arbenigedd dysgu a chaffael iaith y Ganolfan Genedlaethol wedi ei galluogi i ddenu cynulleidfaoedd newydd at y Gymraeg – gyda mwy o bobl nag erioed yn dysgu'r iaith.

Yn ôl data swyddogol y Ganolfan, cwblhaodd 18,330 o bobl gyrsiau Dysgu Cymraeg yn 2023–2024 – y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 45% ers i'r Ganolfan gymryd cyfrifoldeb dros y sector yn 2016.

Mae Adroddiad Blynyddol y Ganolfan ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024–2025, yn dangos sut mae gweithgarwch y Ganolfan wedi arwain at y twf yma.

Yn ogystal â darparu 1,500 o gyrsiau i oedolion yn y gymuned ac ar-lein, mae'r Ganolfan yn arwain strategaeth Dysgu Cymraeg genedlaethol sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys Iechyd a Gofal, y Gweithlu Addysg, Pobl Ifanc, Chwaraeon, Teuluoedd ac Awdurdodau Lleol.

Darllenwch fwy am waith y Ganolfan yn yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf trwy ddilyn y ddolen nesaf: adroddiad-blynyddol-2024-25.pdf

# Expertise drives growth in the number of Welsh learners

The National Centre's language learning and acquisition expertise, along with its detailed linguistic planning, has enabled it to attract new audiences to the Welsh language – with more people than ever learning Welsh.

According to the Centre's latest official data, 18,330 people completed Learn Welsh courses in 2023–2024 – the highest number ever recorded and a 45% increase since the Centre took responsibility for the sector in 2016.

The Centre's Annual Report for the 2024–2025 academic year, highlights how the Centre's activities have contributed to this growth.

As well as providing around 1,500 Welsh courses for adults in the community and online, the Centre leads a national Learn Welsh strategy which includes sector-specific projects across Health and Social Care, the Education Workforce, Young People, Sports, Families, and Local Authorities.

Read more about the Centre's work in our latest Annual Report by following the next link: adroddiad-blynyddol-2024-25.pdf



# Prosiect ymchwil i gefnogi sgiliau Cymraeg plant Cymru

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn arwain prosiect ymchwil arloesol i gefnogi plant 7–11 oed i ddysgu a siarad Cymraeg.

Mae'r prosiect yn coladu casgliad o eiriau craidd fydd yn sail i addysgu'r Gymraeg i blant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, ac yn adeiladu ar waith ehangach y Ganolfan i rannu ei harbenigedd dysgu a chaffael iaith â meysydd eraill.

I ddarllen mwy am y prosiect, dilynwch y ddolen nesaf:
[Prosiect ymchwil y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cefnogi sgiliau Cymraeg plant Cymru | Dysgu Cymraeg]

# Research project to boost Welsh skills among children in Wales

The National Centre is leading an innovative research project to support children aged 7–11 to learn and speak Welsh.

The project involves collating a core vocabulary, which will form the basis for teaching Welsh to children in English-medium primary schools, building on the Centre's broader objective to share its language learning and acquisition expertise with other sectors.

To learn more about the project, follow the next link:
[National Centre for Learning Welsh research project to boost Welsh skills among children in Wales | Learn Welsh]



# Hyfforddiant Dysgu Cymraeg ar gyfer y sector Iechyd a Gofal

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn arwain rhaglen sylweddol ar gyfer y sector Iechyd a Gofal, er mwyn cefnogi 'Mwy na Geiriau' – fframwaith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn Iechyd a Gofal.

Mae tiwtor Dysgu Cymraeg wedi'i leoli ym mhob Bwrdd Iechyd, gan gynnig hyfforddiant hyblyg ar bob lefel. Mae cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer arbenigeddau penodol, gan gynnwys Niwroamrywiaeth a Gofal Lliniarol a Diwedd Oes.

Ymhlith y datblygiadau diweddaraf mae cwrs hunan-astudio newydd, y 'Cwrs Cwrteisi/Croeso', sy'n cyflwyno ymadroddion a geiriau o gysur i'w defnyddio â chleifion. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cwrs arbennig i gefnogi gweithwyr Iechyd a Gofal o dramor i ddysgu am Gymru a'r Gymraeg.

Mae mwy o wybodaeth am gynlluniau'r Ganolfan ar gyfer y sector Iechyd a Gofal ar gael trwy ddilyn y ddolen nesaf:
Cynllun Iechyd a Gofal | Dysgu Cymraeg

# Learn Welsh training programme for the Health and Care sector

The National Centre is leading a significant training programme for the Health and Care sector, in support of 'More than just Words' – the Welsh Government's framework to promote the use of Welsh in Health and Care.

A Learn Welsh tutor is now based within every Health Board, offering flexible training at all levels. Tailored learning programmes are also available for certain specialties, including Neurodivergence and Palliative and End of Life Care.

Other developments include a new self-study course, called 'Cwrs Cwrteisi/Croeso', which introduces phrases and expressions of comfort staff can use with patients. Plans are underway for a new course to support Health and Care workers from overseas, helping them learn about Wales and the Welsh language.

More information about the Centre's provision for the Health and Care sector is available by following the next link:
Health and Social Care Scheme | Learn Welsh




# Dathlu Dysgu Cymraeg

Bydd lleisiau dysgwyr a siaradwyr newydd i'w clywed ar draws amserlenni BBC Radio Cymru ac S4C yn ystod 11-17 Hydref, fel rhan o'r Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg flynyddol. Yn ogystal, bydd cyfle i fwynhau gwrando ar rai o gyflwynwyr Radio Cymru mewn sesiwn rithiol, fyw a bydd teithiau yn cael eu cynnal yng Nghanolfannau'r Egin, Caerfyrddin, a BBC Cymru yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Foo Seng Thean, enillydd Gwobr Siaradwr Cymraeg Newydd Gwobrau Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith, ac i Lucy Cowley, enillydd Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Wrecsam 2025. Mae'r Ganolfan yn edrych ymlaen at gydweithio â'r ddau i hyrwyddo'r holl gyfleoedd i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg.

# Celebrating Learning Welsh

The voices of learners and new speakers will be heard on both BBC Radio Cymru and S4C between 11 and 17 October, as part of Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg, a week-long celebration of learning Welsh. There will also be opportunities to enjoy a live, virtual session with BBC Radio Cymru presenters, along with guided tours of Canolfan Yr Egin, Carmarthen, and the BBC Cymru Wales studios in Cardiff.

Llongyfarchiadau – congratulations – to Foo Seng Thean, winner of the New Welsh Speaker Award at the Learning and Work Institute Inspire! Awards, and to Lucy Cowley, winner of the 2025 Welsh Learner of the Year at the Wrecsam National Eisteddfod. The Centre looks forward to working with both to promote the opportunities to learn and enjoy the Welsh language.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn